

## IESU, Y WIR WINWYDDEN.

**Emyn: 710** 'Arglwydd Iesu, dysg i'm gerdded.'

**Darlleniad:** Ioan 15:1-12.

**Neges:**

### A. DWYN FFRWYTH.

Yr hyn sydd wrth galon y darn hwn yw'r galwad i ddwyn ffrwyth ysbrydol.

*"Myfi yw'r wir winwydden."* Iesu yw'r winwydden berffaith. I'r Iddew, roedd y winwydden yn gyfeiriad at genedl Israel, pobl Dduw. Yn gyson roeddent yn anffyddlon ac anufudd i Dduw; mor wahanol i'r Iesu y wir winwydden. *"A'm Tad yw'r gwinllannwr."* Dyma gyfeiriad at Dduw y Tad, yr un sy'n gofalu ac yn trin y winwydden. *"Y mae ef yn torri i ffwrdd bob cangen ynof fi nad yw'n dwyn ffrwyth,"* 2. **Pwy yw'r canghennau?** Mae dau grŵp i'w weld:

i) Canghennau sydd yn dwyn ffrwyth ac sydd yn cael eu glanhau gan y Tad. Dyma bobl sydd yn gwrando ac yn derbyn gair Duw i'r galon. Dyma 11 o ddisgyblion Iesu.

ii) Canghennau nad sy'n dwyn ffrwyth ac sydd yn cael eu torri i ffwrdd gan y Tad a'u llosgi, (2,6). Dyma bobl sydd yn clywed ond heb dderbyn gair Duw i'r galon. Dyma Jwdas.

Ceir pobl sydd yn ymddangos fel dilynwyr Iesu ond nid ydynt yn amlygu ffrwyth ysbrydol!

### B. AROS YNG NGRHIST. Sut mae dwyn ffrwyth ysbrydol?

i) Trwy gael ein glanhau gan y Tad. *"Y mae ef yn ... glanhau pob un (cangen) sydd yn dwyn ffrwyth,"* 2. Deall 'glanhau' yn y cyd-destun yma yw golchi; bydd garddwr yn glanhau planhigyn o dyfiant marw, pryfed, mwsogl ac ati, er mwyn iddo ddwyn ffrwyth newydd. Gwna Duw symud yr hyn sydd ddrwg yn ein bywydau (arferion gwael, blaenoriaethau anghywir ac ati), er mwyn i ninnau ddwyn mwy o ffrwyth ysbrydol.

ii) Aros yng Nghrist. *"Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chwi,"* 4. Ni wna gwir grediniwr golli ei undeb (union) a Christ ond mae'n bosib iddo golli cymdeithas (fellowship) â Crist. I osgoi hyn rhaid 'aros yng Nghrist.' **Sut mae gwneud hyn?** a) Trwy ddarllen a derbyn geiriau Duw: *"Os arhoswch ynof fi, ... erys fy ngeiriau ynoch chwi,"* 7. b) Trwy gadw gorchmynion Duw. *"Os cadwch fy ngorchmynion fe arhoswch yn fy nghariad,"* 10.

### C. BENDITHION AROS YNG NGRHIST.

**Beth yw'r bendithion o aros yng Nghrist?** i) Ateb i'n Gweddïau: *"Os arhoswch ynof fi, ac os erys fy ngeiriau*

*ynoch chwi, gofynnwch am beth a fynnwch ac fe'i rhoddir ichwi,"* 7. Nid yw hyn yn golygu y bydd Iesu yn rhoi pob dim wnawn ofyn iddo amdano, oherwydd gallwn ofyn am bethau ffôl ac anghywir. Y gofyn yw gweddïo am yr hyn sydd yn unol â'i ewyllys ef. A'r unig ffordd i wneud hynny yw bod yng Nghrist.

ii) Dwyn llawer o ffrwyth: *"Dyma sut y gogoneddir fy Nhad: trwy i chwi ddwyn llawer o ffrwyth a bod yn ddisgyblion i mi,"* 8. Cyflëir dau ffrwyth yn y darn sef cariad (9-10) a llawenydd (11). *"Arhoswch yn fy nghariad i,"* 9. Trwy aros yng Nghrist gwnawn aros yn ei gariad; mae disgwyl i ni amlygir cariad yma i eraill. Hefyd, gwnawn brofi gwir lawenydd. Nid y llawenydd dros dro a brofir gan y byd ond 'llawenydd cyflawn,' 11.

iii) Rydym yn ddisgyblion i'r Iesu: Mae gwir ddisgyblion / dilynwyr i'r Iesu yn aros ynddo ac yn dwyn ffrwyth ysbrydol. Gwnânt amlygu ffrwyth yr ysbryd yn eu bywydau, (cariad, llawenydd, heddwch ac ati Galatiaid 5). Gwnânt ddwyn pobl at Iesu, tyfu mewn gras a'i wir addoli Ef.

A ydym yn adnabod Iesu y wir winwydden? A ydym wedi derbyn ei eiriau i'r galon? A ydym yn cael ei glanhau gan y Tad? A ydym yn dwyn ffrwyth ysbrydol?

**Gweddï:** O Dduw Dad, helpa ni yn y cyfnod rhwystredig yma, oherwydd y feirws, i bwysu mwy mwy arnat ti. Mae'n siŵr ein bod ni gyd yn dechrau blino gyda Covid-19: gweld y feirws yn parhau i ledu, pryder am iechyd, ansicrwydd gyda gwaith, methu gweld teulu a ffrindiau, cyfyngiadau ar ein gallu i ddychwelyd i'r capel, a llawer mwy o rwystau. O Dduw, yn ein gwendid, gad i ni gofio nad ydwyf Ti wedi newid o gwbl, a dy fod yn parhau i fod yn Dduw Mawr. Yn hytrach na phwysu ar ein nerth a gallu, helpa ni i bwysu arnat Ti.

Diolch am Iesu, y wir winwydden. Helpa ni i ddarllen ac i wrando ar dy air, i barhau i weddïo yn ein cartref leoedd ac i aros yn Iesu. Ein dyhead yw i dy ogoneddu di yn ein bywydau ac i ddwyn ffrwyth ysbrydol, megis cariad, caredigrwydd, daioni ac ati, ffrwyth fydd yn aros am byth. Yn enw Iesu, Amen.

## JESUS, THE TRUE VINE.

**Hymn:** 946 *'Fight the good fight with all thy might.'*

**Reading:** John 15:1-12.

**Message:**

### A. BEARING FRUIT.

At the heart of this passage is the call to bear fruit.

***"I am the true vine."*** Jesus is the unique and genuine vine. The vine to Jews symbolised Israel, the people of God. While Israel had been often disobedient and unfaithful to God, Jesus is always faithful and true to his Father. ***"And my Father is the vine dresser,"*** 1. Here is a reference to God the Father, who cares and tends his people. ***"Every branch of mine that does not bear fruit he takes away,"*** 2. **Who are the branches?** Two groups are offered here:

1. Branches that bear fruit and are cleaned (pruned) by the Father. They represent people who listen to God's words and receive it to their hearts. Example: the 11 disciples, not including Judas.
2. Branches that do not bear fruit and are eventually taken away to be burned. They are people who hear the

word of God, but reject it, and there is no spiritual fruit in their lives. Example: Judas.

People can appear to be 'in Christ' and think they are his followers and yet there is no fruit in their lives!

### B. ABIDING IN CHRIST. How do we bring forth fruit?

1. By being pruned (cleaned) by the Father: *"Every branch that does bear fruit he prunes,"* 2. A good gardener will clean away moss, insects and any dead growth from plants, so as to bring forth new growth in time. Spiritually, God removes that which hinders growth in us, bad habits, wrong desires, etc.
2. By abiding in Jesus: *"Abide in me, and I in you,"* 4. A true believer will not lose his union with Jesus (John 10:28), but it is possible to lose fellowship with him. To avoid this, he/she must abide in Jesus. **How is this achieved?** i) By listening to and reading God's Word: *"If you abide in me, (and) my words abide in you,"* 7. ii) By obeying God's commands: *"If you keep my commandments, you will abide in my love,"* 10. The greatest commandment being, to love God with all our hearts, and then to love one's neighbour as oneself.

### C. THE BLESSINGS OF ABIDING.

**What are the blessings of abiding in Jesus?** i) Answer to prayer: *“If you abide in me ... ask whatever you wish, and it will be done for you,”* 7. This does not mean that Jesus will give everything we ask for. We need to pray according to his will, and this can only be achieved by abiding in Jesus. ii) Bearing much fruit: *“By this my Father is glorified, that you bear much fruit and so prove to be my disciples,”* 8. Two spiritual fruit is mentioned: Love (9-10) and joy (11). There is comfort in knowing that by abiding in Jesus we will always be loved by Him. We are to show this love to others. Also, real joy comes from knowing Jesus (and not from the things of this world!). iii) We are His disciples: True followers of Jesus abide in Him and bring forth fruit, i.e. they reveal the fruit of the spirit in their lives (love, peace, joy, kindness etc. – Galatians 5). They bring others to Jesus, they grow in grace and truly worship God.

**Do we know Jesus the true vine?** Have we received his words to our hearts? Have we been cleaned by the Father’s words? **Are we abiding in Jesus and bringing forth fruit?**

### Prayer:

Our heavenly, Father, help us in this difficult time, because of the virus, to trust you more and to rest in you. We have all been affected by Covid-19. We are naturally concerned about our health and the wellbeing of loved ones, the uncertainty about work and livelihood, that the virus appears to be on the increase again, and our inability to worship you in the chapel as we would like to do. Father God, in a changing world, help us to remember that you have not changed and that you continue to be a mighty and faithful God. Help us to remember the words that declare that you *‘will never leave or forsake your children,’* Hebrews 13.

Thank you that Jesus is the true vine. Help us to be faithful in the reading and listening of your word, to continue in prayer and to abide in Jesus. Our desire is to glorify you and to show spiritual fruit in our lives, fruit such as love, peace, joy, kindness and so forth. Hear our prayer, in Jesus name. Amen.

